Adroddiad Cylch Gwaith Estyn:
Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Teitl yr Adroddiad
Arfarniad o gyflwyno cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 mewn ysgolion nad ydynt yn cynnal peilot o Fagloriaeth Cymru

Manylion yr Adroddiad
Comisiynwyd yr Adroddiad gan yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu yn APADGOS i arfarnu'r trefniadau i gyflwyno cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 y tu allan i gyd-destun Bagloriaeth Cymru. Bydd y canfyddiadau'n llywio'r cyngor ar gyfer y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o ran cyflwyno cyrsiau TGAU diwygiedig yn 2010.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau
Caiff bron i draean y cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4 eu dyfarnu i ddisgyblion mewn ysgolion peilot Bagloriaeth Cymru, a thua dwy ran o dair i ddisgyblion nad ydynt yn rhan o Fagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn cofrestru disgyblion ar gyfer cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Mae tua 22% yr ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cofrestru disgyblion ar gyfer un neu ragor o fedrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4, ond ychydig iawn y mae tua hanner y rhain yn eu cofrestru, er bod un ysgol eisoes yn cofrestru'r garfan gyfan bron ar gyfer pob un o'r tri phrif gymhwyster medrau allweddol. Un rhwystr mawr rhag ymgymryd â chymwysterau medrau allweddol yw natur lafurus ganfyddedig y broses o gasglu ac asesu'r dystiolaeth portffolio.
Casgliad cyffredinol Estyn yw na fyddai'n rhesymol ar hyn o bryd i ddisgwyl i bob ysgol uwchradd gofrestru pob disgybl ar gyfer cymwysterau medrau allweddol yng nghyfnod allweddol 4. Nod holl argymhellion Estyn yw gwella defnydd ysgolion o gymwysterau medrau allweddol yn sylweddol yng nghyfnod allweddol 4.

Argymhellion 1 – 4
Dylai ysgolion

- ddatblygu strategaeth ysgol gyfan a synnwyr cyfeiriad clir ar gyfer datblygu medrau allweddol disgyblion
- cynnwys yr holl adrannau pwnc yn fwy gweithredol mewn datblygiadau medrau allweddol
- rhoi cymorth gweinyddol digonol i athrawon er mwyn eu helpu i reoli portffolios
- hyrwyddo manteision datblygu medrau allweddol i ddisgyblion a chynllunio gwaith medrau allweddol perthnasol sy'n gweddu i'w hastudiaethau eraill.

Ymateb i Argymhellion 1 – 4

Mae'r Gweinidog yn croesawu'r argymhellion hyn i ysgolion. Bydd ysgolion yn dod o hyd i gymorth drwy raglen cymorth medrau allweddol Llywodraeth y Cynulliad a'r cwricwlwm diwygiedig yn 3-16, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar

ddatblygu medrau allweddol pobl ifanc, a bydd yn rhoi mwy o gymorth i ysgolion yn y gwaith hwn. Bydd mwy o gyfleoedd hefyd yn cael eu darparu trwy ganolbwyntio mwy ar y pethau sylfaenol, a gaiff eu cyflwyno i gyrsiau TGAU diwygiedig yn yr Iaith Saesneg, yr Iaith Gymraeg, Mathemateg a TGCh, o fis Medi 2010.

Argymhelliad 5
Dylai cyrff dyfarnu barhau i symleiddio'r gwaith sy'n ymwneud â chasglu, asesu a safoni portffolios medrau allweddol, wrth gynnal dibynadwyedd.

Ymateb i Argymhelliad 5
Mae'r Gweinidog yn croesawu'r nod o leihau baich di-angen. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw newidiadau a wneir i'r gofynion osgoi tanseilio dibynadwyedd yr asesiad neu'r effaith a geir ar safonau'n gyffredinol. Bydd swyddogion rheoleiddio Llywodraeth y Cynulliad yn trafod â'r cyrff dyfarnu a oes sgôp i leihau'r baich o ran gweithdrefnau casglu ac asesu wrth gynnal dibynadwyedd yr asesiad a'r safonau cyffredinol.

Argymhelliad 6
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad ar y modd y gellid defnyddio gwaith disgyblion ar draws y cwricwlwm yn fwy effeithiol i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer portffolios medrau allweddol.

Ymateb i Argymhelliad 6
Mae'r Gweinidog yn croesawu'r argymhelliad hwn. Bydd yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu'n cychwyn ar ei gwaith ymchwil yn ystod 2008-09 i weld sut y gellid defnyddio gwaith disgyblion ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys y gwaith a ddatblygwyd ar gyfer asesiad TGAU, yn fwy eang ar gyfer portffolios medrau allweddol, ac i'r gwrthwyneb. Bydd yr ymchwil yn defnyddio arfer da presennol mewn ysgolion, gan gynnwys yr ysgolion sydd ar hyn o bryd yn cynnig Bagloriaeth Cymru yng nghyfnod allweddol 4, i gynhyrchu canllawiau ar sut i wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o waith disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Argymhelliad 7
Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi data ar lefel genedlaethol ac ysgol ar gyfran y disgyblion sy'n ennill cymwysterau medrau allweddol ar bob lefel.

Ymateb i Argymhelliad 7
Nid yw'r Gweinidog yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad newydd gwblhau adolygiad o fesurau perfformiad ysgolion uwchradd a defnyddiwyd cyfres newydd o ddangosyddion (a elwir yn Grynodeb Perfformiad Ysgolion Uwchradd) i gyhoeddi canlyniadau dros dro diwedd cyfnod allweddol 4 ym mis Medi.

Mewn cyfres o ddangosyddion sy'n trin pob cymhwyster yn gyfartal byddai'n amhriodol tynnu sylw at unrhyw fath penodol o gymhwyster. Mae cymwysterau medrau allweddol yn cyfrif tuag at ddangosyddion trothwy lefel a sgoriau pwyntiau ehangach; cânt eu trin yn gyfartal â chymwysterau eraill.

Manylion Cyhoeddi
Cyhoeddir yr adroddiad ar 5 Tachwedd 2008 neu wedi hynny yn www.estyn.gov.uk.